

Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyhoeddus cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun 9 Ebrill 2018 yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-04/18: Presennol

Cadeirydd ; Cyng. Sian Williams; .

Cyng. Elizabeth George; Cyng. Robert Cadwalader, Cyng. Henry Jones; Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Phil Jones; Cyng. Elizabeth Reagan; Cyng. Dafydd Lloyd; Cyng. Robert T Price;
Clerc – Dr Catrin Jones

2-04/18 Ymddiheuriadau:

Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. William A Evans; Cyng. Wayne Roberts;

3-04/18: Datgan diddordeb

Cyng Robert Cadwalader –agendwm 7-04/18 a. Cais Cynllunio C18/0209/35/AM

4-04/18 Cadarnhau cofnodion mis Mawrth

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith

5-04/18: Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)

- a. Age Cymru/Age Alliance Wales - derbyniwyd gwahoddiad i fynychu grŵp ffocws ym Mangor ar- 10 Ebrill 10.30 Yn anffodus roedd yn rhy hwyr i ddanfôn cynrychiolydd.

6-04/18 : Gohebiaeth

- a. Llywodraeth Cymru: Papur Gwyrdd 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl' - e-bost 21 Mawrth 2018

Nodi'r ymgynghoriad

Penderfyniad: derbyn y wybodaeth

- b. Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd - Cynigion drafft - e-bost a llythyr dyddiedig 23 Ionawr 2018 - wedi ei gylchredeg eisoes

Trafodwyd a phenderfynwyd ar ymateb i gynigion drafft yr arolwg yng nghyfarfod mis Chwefror o'r Cyngor ac mi benderfynwyd yn dilyn pleidlais gwrthod derbyn argymhelliad Comisiynydd y Gymraeg i ail enwi etholaeth Criccieth yn "Criccieth" ac y dylid cadw enw hanesyddol, cydnabyddedig yr etholaeth yn Criccieth ac mae hwn oedd y fersiwn Gymraeg cywir. Postiwyd barn y Cyngor ar safle We'r Cyngor a gwahoddwyd sylwadau gan drigolion i'w danfon at y Clerc erbyn 31 Mawrth. Nid oedd sylwadau wedi dod i law.

Nodwyd eto nad oedd y Comisiwn yn cynnig newid i drefniant daearyddol nac enw Ward Criccieth.

Penderfyniad: I gefnogi bwriad y Comisiwn am y drefn bresennol ar gyfer ward etholiadol Criccieth ac i gadarnhau penderfyniad Mis Chwefror y Cyngor i wrthod derbyn argymhelliad Comisiynydd y Gymraeg i ail enwi etholaeth Criccieth yn “Criccieth” ac y dylid cadw enw hanesyddol, cydnabyddedig yr etholaeth yn Criccieth ac mae hwn oedd y fersiwn Gymraeg cywir.

- c. Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn –Adnabod Llecynnau Agored - llythyr 15 Chwefror 2018

Nodwyd bod y Cyng Robert Cadwalader wedi ymchwilio ac wedi gwirio'r wybodaeth a chywiro'r cynlluniau.

Penderfyniad: y Clerc i ddanfôn y wybodaeth i'r Uned Polisi

- d. Cyngor Gwynedd – Deddf Cymalau Trefol, 1847 Adran 21 – Cau Amryw Ffyrdd –Ffeiriau Criccieth ar y 23/05/2018 a'r 29/06/18 – epost 15 Mawrth 2018

Penderfyniad: derbyn y wybodaeth

- e. Un Llais Cymru - Cyfarfod Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Betsi Cadwaladr - 19 Ionawr 2018 - epost 26 Mawrth 2018

Penderfyniad: derbyn y wybodaeth

- f. Un Llais Cymru - Cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018 –epost 19 Mawrth 2018

Gwahoddiad i roi cynigion gerbron.

Penderfyniad: Nid oedd gan aelodau'r Cyngor gynigion i'w rhoi gerbron.

- g. Un Llais Cymru – Cynhadledd ar y Cyd Un Llais Cymru/SLCC 16 Mai 2018 –epost 28 Mawrth 2018

Gwahoddiad i fynychu'r gynhadledd ar y cyd i drafod meysydd pynciol allweddol fel: yr adolygiad o gynghorau lleol, llywodraethant ac atebolrwydd ariannol, datganoli gwasanaethau a rheoliadau diogelu data cyffredinol. Croeso cynnes i Gynghorwyr a Chlercod.

Penderfyniad: Y Clerc i fynychu.

- h. Cyngor Gwynedd – Clybiau Ieuenctid

Nodwyd gyda siom benderfyniad cabinet Cyngor Gwynedd i gau clybiau ieuenctid. Roedd llythyr wedi ei gyflwyno gan y Cyngor Tref yn codi amheuan am y broses a sut oedd y casgliadau wedi eu cyrraedd a hefyd yr amserlen a'r diffyg amser i gynnal trafodaethau pwrpasol gyda'r cymunedau ar gyfer darpariaeth i ieuenctid ar gyfer y dyfodol, gan ystyried hefyd oblygiadau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd y llythyr yn gofyn i Gabinet Cyngor Gwynedd am ragor o amser er mwyn cael trafodaethau ystyrlon cyn cymryd penderfyniad ar fater a oedd mor bwysig i'n cymunedau.

Roedd yna gryn anniddigrwydd wedi codi o sawl cwr yng Ngwynedd i'r penderfyniad yma gan Gyngor Gwynedd. Roedd y Cyngor Tref Criccieth wedi cynnal diwrnod ymgynghoriad i drigolion y dref ar 23 Medi 2017 er mwyn cael mewnbwn ar Gynllun Cymunedol i'r dref. Un adborth a oedd ar frig y rhestr yma oedd yr angen am weithgareddau a chynhaliaeth i bobl ifanc. Roedd y Cyngor Tref yn awyddus i weld gwasanaeth i bobl ifanc ac nid yw'r amserlen gyfredol a osodwyd allan gan Gyngor Gwynedd yn dderbyniol ar gyfer ail-fodelu'r gwasanaeth.

Penderfyniad: Nodwyd siom y Cyngor yn y penderfyniad a'r diffyg amser i gynnal trafodaethau pwrpasol cyn cymryd penderfyniad a oedd mor bwysig i'n cymunedau. Cytunwyd mai'r ffordd briodol ymlaen byddai hwyluso trafodaethau'n lleol yn y gweithdai i'w trefnu wrth ddatblygu Cynllun Cymunedol Criccieth.

- h. Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambrian 9.3.18 – eost 12 Mawrth 2018
Nodwyd yr ymateb a oedd wedi dod i law ynglŷn ag arwyddion stesion drên yng Nghriccieth ac oherwydd diffyg capasiti parcio a gan nad oedd y ffordd yn addas iawn i lot o gerbydau, nid oedd yr Adran Draffig yn awyddus i gyfeirio cerbydau yno. Fodd bynnag roeddynt yn fodlon edrych ar fwy o arwyddion i gerddwyr.

Penderfyniad Clerc i ysgrifennu at Reolwr Traffig Cyngor Gwynedd i holi am arwyddion priodol - un ar gyfer cyfeirio cerddwyr at y stesion drên ac arwydd arall i gyfeirio ceir at y stesion drwy'r prif faes parcio yn y dref a oedd a llwybr cerdded i'r stesion.

- i. Gohebiaeth re cais i osod meinciau a byrddau gan dafarn y Prince of Wales – eost 26 Mawrth 2018
Nodwyd bod y Cyngor Tref wedi trafod y mater a gyrru argymhellion. Roedd Cyngor Gwynedd wedi gwrthod y cais am gytundeb ac roedd yr ymholydd wedi gofyn am ail-ystyriaeth ac yn cynnig cymryd cyfrifoldeb am dorri'r gwair a chlirio'r sbwriel. Roedd Cyngor Gwynedd wedi gwahodd y Cyngor Tref i gyflwyno sylwadau.

Penderfyniad: Dim sylwadau pellach

- j. Apêl Ambiwlans Awyr Cymru i Blant – eost 5 Mawrth 2018
Cais am gyfraniad ariannol. Ystyriaeth o dan Adran 137 (4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Penderfyniad: Dim cyfraniad.

- k. Ymateb Un Llais Cymru i Adolygiad y Cyngor Cymuned a Thref – eost 3 Ebrill 2018

Penderfyniad: derbyn y wybodaeth

7-04/18: Ceisiadau Cynllunio

Ers cyhoeddi'r agenda roedd dau gais cynllunio wedi dod i law a oedd angen sylw cyn cyfarfod nesaf y Cyngor:

- a. C18/0209/35/AM Cais amlinellol gyda'r holl faterion wedi eu cadw yn ôl i ddymchwel adeilad eglwys bresennol a chodi tŷ preswyl - They Holy Spirit Church, Criccieth LL52 0AE

Ni chymerodd y Cyng Robert Cadwalader ran yn y drafodaeth o'r cais hwn

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

- b. C18/0261/35/LL Codi estyniad deulawr ar gefn yr eiddol – Garreglwyd, Wellington Terrace, Criccieth LL52 ODB

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad

- c. Ers y cyfarfod diwethaf cylchredwyd cais cynllunio C18/007/35/R Addasiadau mewnol Nant y Felin, Ffordd Porthmadog, Criccieth, Gwynedd LL52 OHP ac ni chafwyd sylwadau.

8-04/18 Awdit o gyfrifon y Cyngor Tref ar gyfer 2017-18

Nodwyd bod y daenlen incwm a gwariant a chysondebau banc ar gyfer y flwyddyn ariannol wedi ei gylchredeg a hefyd y ffurflen flynyddol.

Roedd £45,099.05 wedi'i wario o'r gyllideb gyffredinol a oedd ychydig dros y gyllideb o £45,000 ac y byddai cais ad-daliad TAW o £3172.98. Nodwyd wrth wneud y daenlen TAW bod y Clerc wedi cywiro ffigurau o 10 c yn y daenlen incwm a gwariant ar gyfer Mis Rhagfyr i adlewyrchu TAW/gwariant Yn ogystal roedd £115.00 wedi'i wario o grant Cronfa Loteri Cofio Cyfraniad Criccieth o'r cyfanswm o £10,000 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Roedd y gweddill yn cael ei drosglwyddo i'r flwyddyn ariannol 2018/19.

Roedd y wybodaeth ar gyfer yr awdit mewnol wedi ei baratoi a'r Clerc am drefnu dyddiad i'w gyflwyno. Nid oedd y papurau awdit allanol gan y BDO wedi eu derbyn eto.

Penderfyniad: Derbyniwyd a chadarnhawyd y wybodaeth.

9-04/18 Deddf Diogelu Data

Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad ysgrifenedig i'r Cyngor ar Ddeddf Diogelu Data (GDPR) a oedd yn do di rym ar 25 Mai 2018. Roedd yr adroddiad wedi ei gylchredeg.

Nodwyd bod y Clerc wedi derbyn hyfforddiant gan gymdeithas y clerod ac yn mynychu sesiwn hyfforddiant a oedd yn cael ei drefnu gan gangen Gwynedd o'r SLCC ar 19 Ebrill. Roedd manylion sesiwn hyfforddiant gan Un Llais Cymru i'w cadarnhau.

Cafwyd crynodeb o'r GDPR a chyfrifoldeb y Cyngor, fel Rheolwr Data i sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud yn gywir.

Penderfyniad:

- Derbyniwyd yr adroddiad – gan nodi bod awdit o'r data yn cael ei gynnal. Hefyd nodwyd pwysigrwydd sesiwn hyfforddiant i'r Cyngorwyr.
- Gwahoddwyd y Clerc i baratoi'r ddogfennaeth/polisiau priodol i'w ystyried a'u cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor ym Mis Mai.
- Cytunwyd y dylai'r Clerc archebu peiriant torri papur a chabinet bach sy'n cloi.
- Apwyntiwyd y Clerc *pro tem* yn Swyddog Diogelu Data i'w adolygu os byddai dyfarniad gan yr ICO yn groes i hyn yn ystod yr wythnosau nesaf.

Diolchwyd i'r Clerc am yr adroddiad.

10-04 /18 Prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth – adroddiad o gyfarfod 4 Ebrill 2018

Cafwyd adroddiad ar lafar gan y Cyng Elizabeth George o'r cynnydd yn y prosiect. - Gofynnwyd am ganiatâd y Cyngor i dderbyn cwôt gan adeiladwyr ar gyfer gosod gwaith teiliau yn y Neuadd Goffa (£1.5k). Ers cyhoeddi'r agenda roedd anfoneb o £200 wedi ei dderbyn am waith ar y prosiect.

Nodwyd bod y gwaith yn mynd yn ei flaen yn dda – a bod nifer o opsiynau ar gyfer arddangos y gwaith yn mynd i'r Neuadd Goffa a oedd yn cwrdd ar 10 Ebrill.

Penderfyniad: derbyniwyd yr adroddiad a chytunwyd i dderbyn y cwôt gan adeiladwyr ac i dalu'r anfoneb o £200.

11-04/18 Cynllun Cymunedol Criccieth

Nodwyd bod y gweithdy cyntaf i ddatblygu'r Cynllun Cymunedol yn cael ei drefnu ar gyfer 28 Ebrill 2018 yn Dylan's. Roedd gwahoddiadau i fynychu'r digwyddiad gan gynrychiolwyr o gymdeithasau lleol ac unigolion a oedd wedi mynegi diddordeb yn y Diwrnod Cymunedol ar 23 Medi wedi cael eu danfon. Byddai'r Cyng Sian Williams, Cyng Elizabeth George, Cyng Robert Cadwalader, Cyng Eirwyn Williams a'r Clerc yn mynychu.

Penderfyniad: derbyniwyd yr adroddiad gan nodi siom y Cyngor ym mhenderfyniad y Neuadd Goffa i beidio medru cynnal y digwyddiad yn ddi-dâl fel digwyddiad cymunedol.

12-04/18 Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell.

Nodwyd bod y Clerc wedi danfon i holi am ddiweddariad gan Gyngor Gwynedd ac yn disgwyl ymateb.

Penderfyniad: derbyniwyd yr adroddiad a gofynnwyd i'r Clerc holi am ddiweddariad cyn y cyfarfod nesaf os nad oedd ymateb yn dod i law.

13-04 /17 Torri gwair yn y dref

Roedd Clerc yn aros i gael cadarnhad am yr amserlen gan Gyngor Gwynedd. Ers cyhoeddi'r agenda roedd anfoneb o £42.54 wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd am dorri a hel gwair ar 27 Medi 2017 Gofynnwyd am daliad o fewn 7 diwrnod.

Penderfyniad: derbyniwyd yr adroddiad ac y dylid talu'r £42.54..

14-04/18: Parcio yng Nghriccieth

Roedd ymateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd yn dilyn penderfyniad i ofyn am folardiau plastig yn lle pren . Nodwyd bod y bolardiau pren wedi cael eu harchebu ac roedd disgwyl y byddant yn eu lle erbyn diwedd y mis.

Penderfyniad: derbyn y wybodaeth.

15-04/18 Torri Coed yng Nghriccieth

Dim i'w adrodd

16-04/18 Meinciau Tref Criccieth

Gofynnwyd am adroddiad gan y Cyng Eirwyn Williams a'r Cyng Robert Cadwalader yn dilyn eu cyfarfod safle gyda Chyngor Gwynedd ar 5ed Ebrill . Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd yn barod i drefnu gosod y meinciau ar yr Esplanade ac i ddefnyddio coed plastig a oedd yn cael ei ail gylchu. Byddai'r Cyngor Tref yn ysgwyddo'r gost.

Penderfyniad: derbyniwyd yr adroddiad ac mi fyddai'r Clerc yn gwirio'r amserlen a'r trefniadau gan Gyngor Gwynedd.

17-04/18 Cyfarfodydd y Cyngor

Roedd cais wedi dod i law i ystyried newid noson gyfarfod y Cyngor o nos Lun gan nad oedd y noson wastad yn gyfleus.

Penderfyniad: Cytunwyd mewn egwyddor i newid y noson i'r ail nos Fawrth y mis ac y dylai'r Clerc wirio hyn gan aelodau'r Cyngor nad oedd yn bresennol er mwyn i'r Cyngor fedru cadarnhau'r penderfyniad yng nghyfarfod nesaf y Cyngor a fyddai'n penderfynu'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd Mehefin-Mai 2018/19.

18-04/18: Cyflog y Clerc

Penderfyniad: Cytunwyd i adolygu cyflog y Clerc o dan faterion caeedig gan yr aelodau yn unig .

Penderfyniad: trafod mewn cyfarfod caeedig gan yr aelodau'r unig.

19-04/18: Derbyniadau

Cyngor Gwynedd – ad-daliad costau torri llwybrau cyhoeddus £325 wedi ei dderbyn mis Mawrth, ers y cyfarfod diwethaf.

20-04/18: Taliadau

Rhodddwyd caniatâd i'r clerck i dalu'r biliau.

• Cyllid y Wlad (PAYE) Chwefror	£126.60 (siec 101225)
• Cyflog y Clerc (Mawrth)	£506.69(siec 101226)*
• Aelodaeth Un Llais Cymru 2018/19	£295.00 (siec 101227)*
• The Society of Local Council Clerks (Aelodaeth y Clerc 2018/19)	£46.00 (siec 101228)*
• SLCC Enterprises Ltd (Webinar Diogelwch Data)	£36.00 (siec 101229)*
• Cyngor Gwynedd am dorri a chasglu gwair	£42.54 (siec 101230)
• K.J.Williams	£200.00(siec 101231)
• Costau Teithio Clerc (Caernarfon 6/3/18) (Llanrwst 26/3/18)	£47.10 (siec 101232)*

*cywiriad o rif siec a nodwyd ar yr agenda

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar nos **Lun 14 Mai 2018**. (Cyfarfod Blynnyddol)

****Bydd y rhaglen yma yn cau 5 Mai 2018****